


# Diwygio Etholiadol y Senedd

## Papur briffio

Awst 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 110 0028**  
E-bost: **[Josh.Hayman@senedd.cymru](mailto:Josh.Hayman@senedd.cymru)**  
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**  
Ymchwil y Senedd: **[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**  
Tanysgrifiwch: **[Cylchlythyr](http://Cylchlythyr)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Diwygio Etholiadol y Senedd

## Papur briffio

Awst 2023

---

**Awduron:**

Josh Hayman a Gruffydd Owen



## Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
<b>2. Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad .....</b>	<b>2</b>
Gwybodaeth gefndirol am waith y Panel Arbenigol .....	2
Beth wnaeth y Panel Arbenigol ei ystyried?.....	2
Beth oedd canfyddiadau'r Panel Arbenigol?.....	3
Capasiti'r Senedd .....	3
Ethol y Cynulliad .....	4
Mesurau i hyrwyddo amrywiaeth .....	6
Beth ddigwyddodd ar ôl i'r Panel Arbenigol gyflwyno ei adroddiad?.....	7
<b>3. Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd .....</b>	<b>8</b>
Gwybodaeth gefndirol am waith y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd.....	8
Ymchwiliadau'r Pwyllgor .....	8
Beth ganfu'r Pwyllgor? .....	8
Capasiti'r Senedd .....	8
Ethol Senedd fwy amrywiol .....	9
Systemau a ffiniau etholiadol.....	12
Datblygu cynigion, deddfu ar gyfer a gweithredu diwygiadau etholiadol. ....	13

---

**4. Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd .....15**

Blaenoriaethau y cytunwyd arnynt .....	15
Y Cytundeb Cydweithio a'r Rhaglen Lywodraethu .....	15
Beth ganfu'r Pwyllgor? .....	16
Maint y Senedd .....	16
Y System Etholiadol .....	19
Mesurau Amrywiaeth.....	23
Ffiniau etholaethol ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026.....	26
Adolygiadau ffiniau ar ôl etholiad 2026.....	28

## 1. Cyflwyniad

Ym mis Mehefin 2023, cadarnhaodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS, y byddai Llywodraeth Cymru yn **cyflwyno dau Fil yn hydref 2023 i ddiwygio'r Senedd.**

**Bydd** y Bil cyntaf yn ymateb i'r argymhellion a nodwyd gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd ynglŷn â chynyddu nifer Aelodau'r Senedd i 96, newid y ffordd y cânt eu hethol, a rhoi adolygiadau o ffiniau etholiadol y Senedd ar sail statudol.

Bydd yr ail Fil **a gyhoeddwyd** gan y Prif Weinidog yn y Datganiad Deddfwriaethol yn bwrw ymlaen ag argymhelliad y Pwyllgor Diben Arbennig i gyflwyno cwotâu rhywedd ar gyfer ymgeiswyr sy'n cael eu hethol i'r Senedd.

Mae'r papur briffio hwn yn edrych yn ôl ar y tri adroddiad allweddol sydd wedi llywio datblygiad y Biliau hyn:

- **'Senedd sy'n Gweithio i Gymru' - Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad (2017)**
- **'Diwygio'r Senedd: y camau nesaf' - Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd (2020)**
- **'Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru' - Y Pwyllgor Dibenion Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd (2022)**

## 2. Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

### Gwybodaeth gefndirol am waith y Panel Arbenigol

Ystyriodd Comisiwn y Pedwerydd Cynulliad gapasiti'r Cynulliad (enw'r sefydliad ar y pryd). Cyhoeddodd **adroddiad** a ddaeth i'r casgliad unfrydol bod y Cynulliad, gyda 60 o Aelodau, "yn rhy wan a bod ei lwyth gwaith yn rhy feichus".

Ar yr adeg y cafod yr adroddiad ei gyhoeddi, nid oedd gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol dros ei faint. Newidiodd hyn o dan **Ddeddf Cymru 2017** a oedd yn datganoli pwerau i'r Cynulliad mewn perthynas â'i faint a'i drefniadau etholiadol, ymysg pethau eraill.

Gan ragweld y pwerau newydd, cyhoeddodd Comisiwn y Pumed Cynulliad ym mis Tachwedd 2016 y byddai'n bwrw ymlaen â gwaith i fynd i'r afael â chapasiti'r Cynulliad. Arweiniodd hyn at sefydlu'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad (y "**Panel Arbenigol**") ym mis Chwefror 2017.

### Beth wnaeth y Panel Arbenigol ei ystyried?

Cylch gwaith y Panel Arbenigol oedd:

- Adolygu'r dystiolaeth a'r ymchwil bresennol sy'n ymwneud â maint a threfniadau etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol, a'u hategu os oes angen;
- gan ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth honno, ac er mwyn llywio'r gwaith o baratoi unrhyw ddeddfwriaeth angenrheidiol, gwneud argymhellion i Gomisiwn y Cynulliad ynglŷn â sawl Aelod ddylai fod gan y Cynulliad Cenedlaethol, y system etholiadol y dylid ei defnyddio i ethol ei Aelodau, a'r oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Ystyriodd y Panel Arbenigol dri phwnc sylweddol, sy'n cael eu trafod yn fanylach isod:

- **Capasiti'r Cynulliad** – Rhan 2 o'i adroddiad;
- **Ethol y Cynulliad** –i adroddiad; ac
- **Etholfraint y Cynulliad** – Rhan 4 o'i adroddiad.

## Beth oedd canfyddiadau'r Panel Arbenigol?

### Capasiti'r Senedd

Yn ôl **adroddiad** y Panel Arbenigol, "nid oes yr un fformiwla awdurdodol y cytunwyd arni i asesu'r maint gorau ar gyfer deddfwrfa" ac mae ei gasgliadau felly "yn seiliedig ar ddadansoddiad cytbwys o amrywiaeth o ffactorau gwahanol".

Mae pennod 4 o'r adroddiad yn archwilio rôl newidiol y Cynulliad a'i bwerau ers ei sefydlu, megis symud i fodel datganoli 'pwerau a gadwyd', datganoli trethi, a Brexit. Ar y sail hon, daeth i'r casgliad mai'r **maint priodol ar gyfer y Cynulliad oedd rhwng 80 a 90 o Aelodau** ac y byddai hyn yn cynnig "**manteision gwerthfawr i gapasiti'r sefydliad a manteision cyfatebol i bobl Cymru hefyd**". Argymhellodd y Panel Arbenigol:

#### Argymhelliad 1 - tudalen 28

Dylid cynyddu maint y Cynulliad i 80 Aelod fan lleiaf, ac yn ddelfrydol i 90 Aelod [...]

Er i'r Panel ganfod y byddai cynnydd i 80 o Aelodau 'yn sicr yn cryfhau'r sefydliad', canfu fod y **manteision yn fwy tuag at y "pegwn uchaf" o 90 o Aelodau**, ac y byddai hyn hefyd yn lleihau'r risg o orfod ailedrych ar y cwestiwn o gapasiti yn dyfodol hyd y gellir rhagweld. Nid oedd y Panel Arbenigol wedi'i ddarbwylllo y byddai'r manteision o gael mwy na 90 o Aelodau o reidrwydd yn gwrthwbyso'r cynnydd mewn costau o ganlyniad i hynny.

**Amcangyfrifwyd mai'r costau blynyddol rheolaidd ychwanegol o gael 20 neu 30 Aelod ychwanegol fyddai £6.6m a £9.6m**, yn y drefn honno. At hynny, mae'r adroddiad yn cydnabod y byddai costau untro hefyd yn gysylltiedig â chynnydd mewn Aelodau, megis addasiadau i'r Siambr a swyddfeydd. Amcangyfrifwyd mai £2.4m fyddai'r costau hyn ar gyfer 20 o Aelodau ychwanegol, a £3.3m ar gyfer 30 o Aelodau ychwanegol. I'r perwyl hwn, argymhellodd y Panel:

#### Argymhelliad 2 - tudalen 31

Dylai'r Bwrdd Taliadau a Chomisiwn y Cynulliad ystyried sut [y gellid newid y trefniadau i sicrhau] bod y gost o weithredu ein hargymhellion yn cael ei chadw i'r lleiafswm posibl;



Mae Pennod 5 o'r adroddiad yn archwilio dulliau o gynyddu neu wneud mwy o gapasiti'r Cynulliad heb gynyddu nifer yr Aelodau. Mae hyn yn cynnwys newid arferion gwaith, strwythur wythnos waith y Cynulliad a nifer yr wythnosau eistedd. Daw'r Panel Arbenigol i'r casgliad:

[...] nid oes yr un o'r dulliau hyn yn mynd i'r afael â'r cyfyngiad sydd wrth wraidd y mater: sef y cyfyngiad difrifol o ran yr amser sydd gan 60 Aelod Cynulliad i ymgymryd ag ystod gyflawn eu cyfrifoldebau.

Mae Pennod 6 o'r adroddiad yn ystyried y rôl sy'n cael ei chyflawni gan yr Aelodau. Nodir bod Aelodau'n dweud yn gyson eu bod yn gweithio oriau hir a bod gan lawer ohonynt amseroedd teithio hir, neu eu bod i ffwrdd o'u cartref am y rhan fwyaf o'r wythnos. Mae'n canfod bod y ffactorau hyn yn creu rhwystr i rai pobl a allai fel arall sefyll mewn etholiad, a bod hynny yn ei dro yn "cael effaith ar amrywiaeth y gynrychiolaeth yn y Cynulliad".

Mae Pennod 8 o'r adroddiad yn archwilio'r cyfyngiadau penodol o ran capasiti sy'n wynebu system bwyllgorau'r Cynulliad. Mae'n dod i'r casgliad bod **y Cynulliad yn rhy fach i gyflawni ei gyfrifoldebau craffu'n effeithiol ac y gallai cynyddu maint y Cynulliad "wella ansawdd y gwaith craffu yn ddi-os"**. Fodd bynnag, mae'n nodi y bydd "y graddau y caiff hyn ei wireddu yn dibynnu ar sut y caiff yr adnoddau ychwanegol eu defnyddio". Mae hyn yn sail i Argymhelliad 3:

### **Argymhelliad 3 - Tudalen 89**

Rhaid i'r Cynulliad ffrwyno'i hun yn y ffordd y mae'n gwneud defnydd o unrhyw gynnydd ym maint y sefydliad [...] i sicrhau bod y manteision posibl ar gyfer ansawdd a swm y gwaith craffu yn cael eu gwireddu a bod costau ychwanegol yn cael eu cadw i'r lleiafswm eithaf.

## **Ethol y Cynulliad**

---

Gofynnwyd i'r Panel Arbenigol wneud argymhellion ar gyfer y system etholiadol y dylid ei defnyddio i ethol y Cynulliad.

### **Argymhelliad 4 - Tudalen 102 (Wedi'i ail-eirio er eglurder)**

Dylai'r Cynulliad gael ei ethol ar sail system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy os caiff ein hargymhellion ar ymyriadau deddfwriaethol i gefnogi ac annog amrywiaeth o ran cynrychiolaeth eu gweithredu.

Dylai'r Cynulliad gael ei ethol ar sail system etholiadol Rhestr Hyblyg os na chaiff yr argymhellion hyn eu gweithredu.

Er mwyn asesu addasrwydd y gwahanol systemau etholiadol, **nododd y Panel Arbenigol ddeg egwyddor** ar gyfer gwerthuso gwahanol opsiynau, gan gynnwys cyfranoldeb, dewis i bleidleiswyr, amrywiaeth a symrlrwydd.

Yn erbyn yr egwyddorion hyn, **nododd y Panel Arbenigol dair system etholiadol a allai fod yn addas:**

- **Yr opsiwn a ffefrir – Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy**
  - Canfu'r Panel Arbenigol fod Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn “cyflawni ar sail ein hegwyddorion cyfranoldeb, statws cyfwerth i Aelodau a rhoi dewis i bleidleiswyr”.
  - Byddai hefyd yn ddigon hyblyg i ethol Cynulliad tuag at ben uchaf y maint a argymhellir gan y Panel, ac felly'n diogelu'n well at y dyfodol.
  - Gallai Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy hefyd gyflawni yn erbyn egwyddor y Panel o amrywiaeth o ran cynrychiolaeth.
- **Dewis Amgen Dilys – Rhestr Hyblyg**
  - Roedd y Panel Arbenigol o'r farn bod system etholiadol y Rhestr Hyblyg yn ddewis arall dilys yn lle system y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy pe na bai ei argymhellion ar gyfer cwota o ran rhywiau yn cael eu gweithredu.
  - Mewn system rhestr hyblyg, byddai pleidleiswyr yn gallu dangos ffafriaeth at ymgeisydd penodol ar restr plaid.
  - Argymhellodd y Panel Arbenigol y dylai fod yn ofynnol i bleidiau sicrhau bod 50 y cant o'u hymgeiswyr ym mhob etholaeth yn fenywod.
- **Opsiwn y Status Quo - Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg**
  - Mae'r Senedd yn cael ei hethol o dan y model Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg ar hyn o bryd.
  - Er bod y system yn bodloni egwyddorion y Panel Arbenigol yn dechnegol, nid oedd y Panel o blaid y system oherwydd yn absenoldeb arolwg llawn o ffiniau, roedd o reidrwydd yn cyfyngu ar nifer yr Aelodau y gellid eu hethol i 80.

## Mesurau i hyrwyddo amrywiaeth

---

Fel rhan o'i waith, ystyriodd y Panel Arbenigol sut y gallai ei gynigion ar gyfer systemau etholiadol gefnogi ac annog ethol deddfwrfa amrywiol.

**Roedd y Panel yn “canolbwyntio'n bennaf ar ffyrdd o gefnogi ac annog cynrychiolaeth gytbwys ar sail rhywedd”.** Yn benodol, ystyriodd yr adroddiad y defnydd o **gwotâu rhywedd** mewn seneddau, a chanfu fod ‘cefnogaeth ryngwladol’ i'r defnydd ohonynt.

Er bod y Panel yn cydnabod bod gan y Cynulliad (ar y pryd) “enw da yn rhyngwladol sydd wedi'i hen sefydlu am hybu cydraddoldeb rhywiol”, canfu fod yr enw da hwn yn “fregus” a bod “diwygio system etholiadol y Cynulliad yn gyfle i ymgorffori cydraddoldeb i fywyd gwleidyddol Cymru a'i sefydliadau cenedlaethol yn y dyfodol”.

**Argymhellodd y Panel Arbenigol y dylid integreiddio cwotâu rhywedd rhagnodol i system etholiadol y Cynulliad.** Dywedodd hefyd y dylai cwotâu o'r fath, cyn belled ag y bo modd, gynnwys targedau gyda chosbau a chymhellion wedi'u hymgorffori. Daw'r Panel i'r casgliad bod modd i'r Cynulliad ddeddfu mewn ffordd sy'n annog cynrychiolaeth gytbwys o ran y rhywiau, ond mae'n cydnabod bod “cyfyngiadau sylweddol ar ei gymhwysedd”.

Fel rhan o Argymhelliad 10, mae'r Panel yn cynnig, os na roddir cwota rhywedd ar waith, naill ai oherwydd diffyg ewyllys wleidyddol neu resymau cymhwysedd:

“[...] bod disgwyl i'r pleidiau gwleidyddol fynd ati i sicrhau bod eu prosesau o ddethol ymgeiswyr yn cefnogi ac yn annog senedd i Gymru sy'n gytbwys o ran y rhywiau. Dylai hyn gynnwys bod y pleidiau yn mynd ati o'u gwirfodd i fabwysiadu'r cwotâu a amlinellwyd gennym”.

Ar wahân i gwotâu rhywedd, ystyriodd y Panel Arbenigol fesurau pellach i ymgorffori ‘gweithio mewn modd sy'n ystyriol o deuluoedd’ yn ethos y Cynulliad. I'r perwyl hwn, argymhellodd y Panel:

### Argymhelliad 11 - Tudalen 127

Dylid newid y gyfraith etholiadol a gweithdrefnau'r Cynulliad [...] er mwyn i ymgeiswyr allu sefyll i'w hethol ar sail trefniadau **rhannu swyddi** tryloyw [...].

Fel rhan o Argymhelliad 11, mae'r Panel yn nodi, mewn perthynas â rhannu swyddi, y dylid sefydlu egwyddor greiddiol bod partneriaid yn cael eu trin fel pe baent yn

un person, ac na ddylai'r trefniadau "achosi unrhyw gostau ychwanegol sy'n uwch na chostau un Aelod Cynulliad".

## Beth ddigwyddodd ar ôl i'r Panel Arbenigol gyflwyno ei adroddiad?

Ymgynghorodd Comisiwn y Cynulliad (ei enw ar y pryd) ar argymhellion y Panel Arbenigol ar ddechrau 2018.

O "ystyried **faint o gonsensws gwleidyddol** oedd ar y pryd", penderfynodd y Comisiwn ddilyn **rhaglen ddiwygio ddeddfwriaethol â dwy ran**.

Ym mis Hydref 2018, ceisiodd y Comisiwn gymeradwyaeth y Cynulliad i gyflwyno'r **cyfnod cyntaf** o'i raglen ddeddfwriaethol, sef Bil i:

- ostwng yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i 16,
- newid enw'r Cynulliad i Senedd Cymru; a
- gwneud newidiadau eraill, gan gynnwys rhoi eglurder ynghylch y fframwaith anghymhwys.

Cafodd **Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)** ei gyflwyno wedi hynny ym mis Chwefror 2019, a **daeth yn gyfraith** ym mis Ionawr 2020.

Roedd Comisiwn y Senedd **wedi bwriadu** mai ail gam ei raglen ddiwygio fyddai deddfwriaeth i gynyddu nifer yr Aelodau a gwneud diwygiadau canlyniadol i'r system etholiadol.

Fodd bynnag, ym mis Mehefin 2019, daeth y Comisiwn i'r **casgliad**, er ei fod yn hyderus bod "yr achos o blaid cynyddu'r nifer o Aelodau wedi ei ddadlau'n llwyddiannus", nad oedd consensws gwleidyddol eto ar y system etholiadol ac, felly, nad oedd yn bosibl deddfu ar gyfnod dau o ddiwygio'r Senedd yn ystod y Bumed Senedd.

Ym mis Gorffennaf 2019, cynhaliodd y Senedd **ddadl** ar gynnig Plaid Cymru ar ddiwygio'r Senedd a oedd yn galw am gynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd ac i'r Aelodau gael eu hethol drwy Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy i ddod i rym o 2021. Yn dilyn y ddadl, penderfynodd y Senedd drwy fwyafrif i wneud y canlynol:

- Nodi adroddiad y Panel Arbenigol;
- cytuno bod angen cynnydd yn nifer yr Aelodau; a
- galw am ragor o waith trawsbleidiol i fwrw ymlaen â'r materion hyn.

## 3. Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd

### Gwybodaeth gefndirol am waith y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd

Yn dilyn yr alwad am waith trawsbleidiol pellach ar argymhellion y Panel Arbenigol, cyflwynodd y Llywydd gynnig i sefydlu Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, a **dderbyniwyd** yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Medi. Yn dilyn hynny, newidiodd enw'r Pwyllgor i'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd (y "Pwyllgor").

Ffurfiwyd y Pwyllgor i archwilio argymhellion y Panel Arbenigol.

Pennodd y Pwyllgor **amcanion** i'w hun i wneud y canlynol:

- Cydgrynhoi'r sylfaen dystiolaeth bresennol ac ychwanegu ati;
- hysbysu'r cyhoedd ac ymgysylltu â nhw; ac
- amlinellu trywydd ar gyfer diwygio, a hynny er mwyn llywio ystyriaeth y pleidiau gwleidyddol o'u safbwyntiau polisi a'u maniffestos ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021.

### Ymchwiliadau'r Pwyllgor

Cynhaliodd y Pwyllgor dri ymchwiliad:

- **capasiti'r Senedd**
- **ethol Senedd fwy amrywiol**; a
- **systemau a ffiniau etholiadol**

Cyhoeddodd y Pwyllgor **un adroddiad** ar y tri ymchwiliad ym mis Medi 2020. Mae ei brif ganfyddiadau wedi'u crynhoi isod.

### Beth ganfu'r Pwyllgor?

#### Capasiti'r Senedd

---

Cytunodd y Pwyllgor â'r Panel Arbenigol y dylid cynyddu maint y Senedd gan argymell:

#### **Argymhelliad 1 - tudalen 38**

Dylid cyflwyno deddfwriaeth yn fuan yn y Chweched Senedd i gynyddu maint y Senedd i fod rhwng 80 a 90 o Aelodau i ddod i rym o etholiad 2026.

Gan gydnabod y byddai goblygiadau ariannol i gynnydd mewn maint, mae'r adroddiad yn nodi nad ar chwarae bach y daeth y Pwyllgor i'r casgliad hwn.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn **cytuno mewn egwyddor â'r Panel Arbenigol y dylai'r Senedd gael 80-90 o Aelodau**, ond mae'n **nodi** y bydd "angen i benderfyniadau ar faint penodol y Senedd gael eu llywio gan benderfyniadau ar y system etholiadol benodol a'r modelau ffiniau y gellir dod i gonsensws gwleidyddol yn eu cylch".

Mae **adroddiad** y Pwyllgor yn nodi bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a glywodd wedi "mynegi pryder ynghylch a oes gan Senedd â 60 Aelod ddigon o gapasiti i gyflawni ei chyfrifoldebau'n effeithiol". Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yn gwrthwynebu cynnydd yn nifer yr Aelodau, ond noda fod hyn yn gyffredinol "oherwydd pryderon ynghylch costau posibl, yn hytrach na dadleuon bod nifer bresennol yr Aelodau'n briodol".

Er bod yr **adroddiad** yn canfod bod rhai manteision o gael deddfwrfa fach ac ystwyth, noda fod y manteision hyn yn cael eu:

"gwrthbwysu gan y risgiau y mae diffyg capasiti'r Senedd yn eu peri i gyflawni ei rolau craffu, ymgysylltu a chynrychioli'n effeithiol a, thrwy hynny, weithredu democratiaeth gynrychiadol yn briodol yng Nghymru".

Ystyriodd y Pwyllgor fesurau i gynyddu capasiti'r 60 o Aelodau presennol, ond ni chafodd ei ddarbwylllo y gallai mesurau o'r fath "ymdrin yn ddigonol â'r heriau capasiti sy'n wynebu'r sefydliad yn y tymor hwy". Nodir hefyd y byddai'r sefyllfa'n gwaethygu pe bai materion pwnc fel cyfiawnder yn cael eu datganoli i Gymru.

## **Ethol Senedd fwy amrywiol**

---

Archwiliodd y Pwyllgor ymyriadau a argymhellir gan y Panel Arbenigol a rhanddeiliaid eraill a allai fod yn anogaeth i ethol Senedd fwy amrywiol.

### **Argymhelliad 9 - tudalen 103**

[D]ylai Llywodraeth Cymru wneud sylwadau i Lywodraeth y DU ar gyfer cychwyn adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas ag etholiadau yng Nghymru.

Ar hyn o bryd nid oes gofyniad i gasglu na chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth yr ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd, er y gallai pleidiau wneud hynny o'u gwirfodd. Byddai adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, pe bai'n cael ei

chychwyn, yn gwneud hwn yn ofyniad cyfreithiol.

Mae adroddiad y Pwyllgor yn nodi bod “tryloywder yn sbarduno newid” ac yn galw am gychwyn adran 106 neu, fel arall, i bleidiau gwleidyddol gasglu data, gwneud y data'n ddienw, a chyhoeddi data am amrywiaeth eu hymgeiswyr (Argymhelliad 10).

### Argymhelliad 11 - tudalen 111

“Dylid sefydlu gweithgor trawsbleidiol ar ddechrau'r Chweched Senedd i drafod yn fanwl y dichonoldeb o ethol ar sail rhannu swyddi a/neu rannu swyddi gweithredol yn Llywodraeth Cymru neu swyddi eraill y Senedd fel y Llywydd, Comisiynwyr, cadeiryddion pwyllgorau, neu reolwyr busnes. [...]

Cafodd y Pwyllgor ei ddarbwylllo gan y dystiolaeth y gallai “rhannu swyddi helpu i ddileu rhwystrau a allai, fel arall, atal rhai pobl rhag sefyll etholiad neu wasanaethu fel Aelod o'r Senedd”.

Er iddo ganfod bod y drefn o rannu swyddi mewn llawer o broffesiynau a rolau gwleidyddol gweithredol yn dechrau dod yn fwy cyffredin, roedd yn cydnabod y byddai etholiad ar sail rhannu swyddi'n beth newydd. Fodd bynnag, nid oedd y Pwyllgor yn credu bod trefn rhannu swyddi yn broblem anorchfygol ac awgrymodd y dylid ystyried treialu trefn rhannu swyddi ar sail cynlluniau peilot.

### Argymhelliad 13 - tudalen 118

**[...] y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu**, fel mater o flaenoriaeth, **gronfa mynediad at swydd etholedig i gynorthwyo pobl ag anableddau i sefyll etholiad**, ac y dylid ystyried hefyd estyn y cymhwysedd i gael cyllid i grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Ystyriodd y Pwyllgor y rhwystrau ariannol wrth sefyll yn etholiadau'r Senedd. Fel argymhellodd sefydlu cronfa mynediad i swydd etholedig. Galwodd y Pwyllgor hefyd ar Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Etholiadol i ystyried a ddylai ambell wariant sy'n gysylltiedig ag anabledd gael ei eithrio o derfynau gwariant ymgyrchoedd etholiadol (Argymhelliad 14).

Yn ogystal â phobl anabl, roedd y Pwyllgor yn cydnabod y gall grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol hefyd “wynebu rhwystrau ariannol sylweddol” a allai eu hatal rhag sefyll etholiad, gan gynnwys pobl â chyfrifoldebau gofal plant neu

gyfrifoldebau gofalu eraill.

Mae adroddiad y Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno is-ddeddfwriaeth i eithrio treuliau sy'n ymwneud â chostau gofal plant ymgeisydd neu gyfrifoldebau gofalu eraill o derfynau gwariant ymgyrch etholiadol (Argymhelliad 15).

### Argymhelliad 20 – tudalen 134

Wrth ddod i benderfyniad ynghylch a ddylid cynnwys **cwotâu rhywedd** deddfwriaethol ar gyfer ymgeiswyr mewn cynigion diwygio, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol am unrhyw ddeddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd **ystyried i ba raddau y byddai darpariaethau o'r fath o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd [...]**.

### Argymhelliad 21

Dylai pwyllgor perthnasol y Chweched Senedd **wneud rhagor o waith ar gwotâu amrywiaeth mewn perthynas â nodweddion heblaw rhywedd i lywio penderfyniadau ynghylch a fyddai cwotâu o'r fath yn ddulliau priodol o annog Senedd fwy amrywiol i gael ei hethol. [...]**

Mae'r Pwyllgor yn nodi yn ei adroddiad:

“Yn anffodus, mae effaith pandemig COVID-19 ar ein rhaglen waith ac, yn ddiweddarach, ar benderfyniad grŵp Plaid Brexit i adael y Pwyllgor, wedi cwtdogi ar faint rydym wedi gallu casglu tystiolaeth neu ddod i gasgliadau pendant [o ran cwotâu amrywiaeth].”

Er **y darbwyllwyd y Pwyllgor “gan y dystiolaeth glir a chymhellol y gall cwotâu rhywedd [...] wella amrywiaeth yr ymgeiswyr”**, dywedodd nad oedd wedi:

“gallu casglu digon o dystiolaeth i ddod i farn bendant ynghylch a fyddai cwotâu amrywiaeth yn ddull priodol o sicrhau mwy o amrywiaeth yn y Senedd.”

Mae adroddiad y Pwyllgor yn cydnabod bod “cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y mae ar hyn o bryd, yn cyfyngu ar y posibilrwydd i gynigion deddfwriaethol gynnwys mesurau gorfodol i annog ethol Senedd fwy amrywiol”.

Yn benodol, cafodd y Pwyllgor gyngor cyfreithiol y byddai darpariaethau mewn perthynas â deddfu ar gyfer rhannu swyddi gan Aelodau etholedig, cwotâu amrywiaeth, a'i gwneud yn orfodol cyhoeddi data am amrywiaeth ymgeiswyr, yn



debygol o 'ymwneud â'r' materion a gedwir yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 o ran ariannu pleidiau gwleidyddol a'u Haelodau a'u swyddogion, a chyfle cyfartal.

## Systemau a ffiniau etholiadol

---

### Argymhelliad 4 - tudalen 55

Dylid cyflwyno deddfwriaeth ar ddechrau'r Chweched Senedd i **ddarparu bod Aelodau o'r Senedd yn cael eu hethol drwy system etholiadol y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy** o'r etholiad yn 2026 ymlaen.

Ar ôl ystyried rhinweddau'r tri opsiwn a gynigiwyd gan y Panel Arbenigol ar gyfer y system etholiadol, **cytunodd y Pwyllgor y dylai Aelodau'r Senedd gael eu hethol drwy system y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy.**

Fel egwyddorion arweiniol, mae'r Pwyllgor yn nodi y dylai unrhyw system fod yn syml i bleidleiswyr fwrw eu pleidleisiau, dylai pleidleiswyr allu "mynegi dewisiadau rhwng ymgeiswyr a enwir" a dylai'r pleidleisiau arwain at ganlyniadau cyfrannol yn gyffredinol.

Mewn perthynas â **dyluniad system y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau'r Senedd**, mae adroddiad y Pwyllgor yn nodi:

"Mae pandemig COVID-19 a phenderfyniad grŵp Plaid Brexit i dynnu'n ôl o'n gwaith wedi **cyfyngu ar y graddau rydym wedi gallu trafod dyluniad manwl y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy i'w ddefnyddio yn etholiadau'r Senedd.**" [Pwyslais Ymchwil y Senedd]

Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi **dau fater allweddol** a ddeilliodd o'r dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor: **y fethodoleg ar gyfer trosglwyddo pleidlais a dyluniad a threfniadaeth papurau pleidleisio.**

### Argymhelliad 8 - tudalen 82

[...] dylid cyflwyno deddfwriaeth ar ddechrau'r Chweched Senedd i sefydlu trefniadau adolygu ar gyfer ffiniau etholiadol y Senedd.

Mae adroddiad y Pwyllgor yn nodi bod pandemig COVID-19 wedi ei atal rhag bwrw

ymlaen â'i waith yn archwilio trefniadau'r adolygiad o ffiniau etholiadol. O ganlyniad, ni ddaeth i gasgliadau pendant ar y mater.

Yn ôl adroddiad y Pwyllgor, **ar hyn o bryd, nid oes darpariaethau na mecanweithiau deddfwriaethol ar waith i adolygu ffiniau'r Senedd na dosrannu seddau** i etholaethau a rhanbarthau'r Senedd. Roedd y "rhan fwyaf o'r dystiolaeth" a glywyd gan y Pwyllgor "yn cefnogi sefydlu trefniadau ar gyfer adolygu ffiniau'r Senedd".

Gwelodd y Pwyllgor "ei fod yn anghyson ac yn anghynaliadwy" nad oes mecanwaith deddfwriaethol ar waith ar gyfer adolygu ffiniau'r Senedd. Ar y sail hon, argymhellodd y dylid cyflwyno **cynigion deddfwriaethol i sefydlu trefniadau adolygu ac mai corff adolygu ffiniau annibynnol ddylai fod yn gyfrifol am adolygiad o'r fath.**

Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i benderfynu ar fanylion y dyluniad, y fethodoleg a'r paramedrau a fyddai'n gymwys. Er enghraifft, ni ddaeth y Pwyllgor i gasgliad cadarn ynghylch a ddylid cysoni ffiniau etholiadol y Senedd â'r rheini a ddefnyddir ar gyfer etholiadau San Steffan neu awdurdodau lleol.

### **Datblygu cynigion, deddfu ar gyfer a gweithredu diwygiadau etholiadol.**

---

Canfu'r Pwyllgor na fyddai **gweithredoedd anneddfwriaethol ar eu pen eu hunain yn ddigonol i "fynd i'r afael yn llawn â'r bwch capasiti y mae'r [Senedd] yn ei wynebu"**. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn cydnabod y bydd unrhyw gynigion diwygio deddfwriaethol yn gofyn am "[g]onsensws gwleidyddol digon eang ar draws y Senedd i sicrhau bod uwchfwyafrif o 40 Aelod" (sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith i roi'r newidiadau etholiadol arfaethedig ar waith).

O ran capasiti'r Senedd, roedd y Pwyllgor wedi bwriadu cynnal cynulliad dinasyddion i "fesur barn wybodus y cyhoedd" ar y mater, ond cafodd hyn ei atal gan y pandemig COVID-19. Yn hytrach, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd neu'r Aelod sy'n gyfrifol am ddeddfwriaeth diwygio'r Senedd gomisiynu cynulliad dinasyddion o'r fath (Argymhelliad 28).

Mae'r adroddiad yn nodi y bydd angen deddfwriaeth sylfaenol i wneud unrhyw newidiadau i nifer yr Aelodau o'r Senedd a sut y cânt eu hethol. Er mwyn sicrhau bod newidiadau o'r fath yn weithredol erbyn etholiad y Senedd yn 2026, mae'n argymhell:

### Argymhelliad 29 - tudalen 175

Ddechrau'r Chweched Senedd [...] rhaid cael consensws ar y cynigion diwygio a phenderfynu a fydd y ddeddfwriaeth yn cael ei harwain gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd neu un o bwyllgorau'r Senedd.

Yn benodol, mae'r adroddiad yn nodi bod **rhaid gwneud penderfyniadau ar fyrder yn dilyn etholiad cyffredinol y Senedd** ar 6 Mai 2021, yn enwedig ar:

- Nifer yr Aelodau;
- sut y dylid eu hethol;
- materion yn ymwneud ag adolygiadau ffiniau; ac
- unrhyw fesurau deddfwriaethol i annog ethol Senedd fwy amrywiol.

## 4. Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd

Yn dilyn etholiad y Senedd ym mis Mai 2021, **cefnogodd** y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS, alwadau am ddiwygio'r Senedd, yn enwedig cynnydd ym maint y sefydliad. Awgrymodd mai cyfrifoldeb y Senedd oedd bwrw ymlaen â gwaith ar y mater, yn hytrach na bod hyn yn rôl i Lywodraeth Cymru.

Yn ddiweddarach y flwyddyn honno, ym mis Hydref 2021, **sefydlwyd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd**, gyda **dau amcan**:

- Ystyried y casgliadau a wnaed yn flaenorol gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn y Bumed Senedd fel y nodir yn ei adroddiad Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf a osodwyd gerbron y Senedd ar 10 Medi 2020;
- erbyn 31 Mai 2022, gwneud argymhellion o ran cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil Llywodraeth Cymru i Ddiwygio'r Senedd.

### Blaenoriaethau y cytunwyd arnynt

Yn ei **gyfarfod cyntaf** ar 3 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor Diben Arbennig i strwythuro'i waith o amgylch tri cham eang:

- Nodi meysydd lle mae tir cyffredin rhwng safbwyntiau polisi pleidiau gwleidyddol ar ddiwygio'r Senedd, neu'r posibilrwydd o sefydlu tir cyffredin;
- casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen mewn perthynas â'r meysydd hynny o dir cyffredin i helpu'r Pwyllgor i ddatblygu cyfarwyddiadau polisi; a
- datblygu argymhellion ar gyfer cyfarwyddiadau polisi.

### Y Cytundeb Cydweithio a'r Rhaglen Lywodraethu

Ym mis Rhagfyr 2021, cytunodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i weithio gyda'i gilydd ar draws nifer o flaenoriaethau polisi lle roedd ganddynt fuddiannau ar y cyd drwy'r **Cytundeb Cydweithio**.

Cytunodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, drwy'r Cytundeb Cydweithio, i weithio gyda'i gilydd er mwyn:

Cefnogi cynlluniau i ddiwygio'r Senedd, yn seiliedig ar 80 i 100 o Aelodau; system bleidleisio, sydd yr un mor gyfrannol neu'n fwy cyfrannol – na'r un bresennol ac sydd â chwotâu rhywedd wedi'u pennu mewn cyfraith. Byddwn yn cefnogi gwaith Pwyllgor Diben Arbennig y Senedd ac yn cyflwyno Bil i ddiwygio'r Senedd 12 i 18 mis ar ôl i'r pwyllgor hwnnw gyflwyno'i adroddiad.

Hefyd, diweddarwyd y **Rhaglen Lywodraethu** i adlewyrchu'r ymrwymïadau a wnaed yn y Cytundeb Cydweithio. Mae'r Rhaglen Lywodraethu bellach yn cynnwys yr ymrwymïad a ganlyn:

Cyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd, yn seiliedig ar 80 i 100 o Aelodau; system bleidleisio, sydd yr un mor gyfrannol – neu'n fwy cyfrannol – na'r un bresennol a chyflwyno cwotâu rhywedd wedi'u pennu mewn cyfraith.

## Beth ganfu'r Pwyllgor?

Cyhoeddodd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd ei adroddiad '**Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru**' ar 30 Mai 2022. Cafodd yr adroddiad ei drafod yn y **Cyfarfod Llawn** ar 8 Mehefin 2022.

Mae adroddiad y Pwyllgor yn nodi'r **amserlenni heriol dan sylw** ac mae wedi datblygu amserlen ddangosol ar gyfer yr hyn y byddai angen iddo ddigwydd er mwyn i'w gynigion fod mewn grym erbyn etholiad nesaf y Senedd yn 2026. O ystyried yr heriau hyn, mae'r Pwyllgor yn derbyn fod **angen i rai agweddau ar ddiwygio fod ar sail interim i ddechrau**.

### Argymhelliad 1 – tudalen 18

Rydym yn argymhell bod diwygio'r Senedd yn cael ei roi ar waith mewn pryd ar gyfer etholiad nesaf y Senedd yn 2026. O ganlyniad, bydd angen cyflawni rhai agweddau ar sail interim.

## Maint y Senedd

---

Mae'r Pwyllgor yn nodi adroddiadau'r Panel Arbenigol a'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, a argymhellodd y dylai'r Senedd gynyddu o ran maint i rhwng 80 a 90 o Aelodau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bu **newidiadau i dirwedd wleidyddol Cymru** ers cyhoeddi'r adroddiad, gan gynnwys o ganlyniad i Brexit a'r pandemig COVID-19, yn ogystal â **gostyngiad yn nifer yr ASau Cymreig o 40 i 32** yn yr Etholiad Cyffredinol nesaf.

Felly, mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn briodol **ystyried Senedd sy'n fwy na'r hyn a gynigiwyd yn flaenorol** ac yn dod i'r casgliad bod "cynnydd y tu hwnt i 90 yn hanfodol i ddiogelu capasiti'r Senedd ar gyfer y dyfodol er mwyn gallu craffu ar bwerau a chyfrifoldebau cynyddol Llywodraeth Cymru".

### Argymhelliad 2 - tudalen 23

Rydym yn argymell bod gan y Senedd 96 o Aelodau.

Mae adroddiad y Pwyllgor hefyd yn ystyried y rhinweddau ynghylch **a ddylai maint y Senedd gael ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth.**

Mae'n nodi mai'r hyn sy'n digwydd fel arfer mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU yw ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol, ond y gallai fod yn bosibl caniatáu i gomisiwn ffiniau awgrymu amrywio nifer yr Aelodau er mwyn helpu i sicrhau cynrychiolaeth gyfartal.

Daw'r Pwyllgor i'r casgliad, gan fod hwn yn fater o bwysigrwydd cyfansoddiadol, **y dylid ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol.**

### Argymhelliad 3 - tudalen 23

Rydym yn argymell bod maint newydd y Senedd yn cael ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol.

### Y nifer o Weinidogion Cymru

Mae'r Pwyllgor yn nodi y gallai'r argymhellion y mae'n eu gwneud ynghylch maint y Senedd arwain at ystyriaeth ynghylch **a ddylai'r terfyn statudol ar y nifer o Weinidogion Cymru (12 o bersonau, ynghyd â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol) gael ei newid hefyd.**

Mae'r Pwyllgor o'r farn mai prif ddiben cynnydd ym maint y Senedd yw galluogi gwell cynrychiolaeth, deddfwriaeth a gwaith craffu, ond mae'n nodi y gallai'r Llywodraeth hefyd ddymuno cyflwyno achos dros gynnydd cysylltiedig yn y nifer o Weinidogion Cymru.

Ni ddaeth y Pwyllgor i gasgliad ynghylch y mater hwn oherwydd cyfyngiadau amser ond **roedd yn argymell gwneud rhagor o waith ar y mater.**

### Argymhelliad 4 - tudalen 24

Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Senedd a Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir hwyluso ystyriaeth drawsbleidiol o'r cwestiwn ynghylch a fyddai unrhyw gynnydd ym maint Llywodraeth Cymru yn briodol, o ystyried y

ffaith y byddai angen cynnal mwy o waith craffu. Yna dylai'r ystyriaeth lywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer Senedd â 96 o Aelodau.

**Mae'r Pwyllgor Busnes wedi ystyried y mater hwn ers hynny, a chytunodd** y byddai'n rhesymol **cynyddu uchafswm y nifer o Weinidogion Cymru i 17, gyda mecanwaith i ganiatau i hyn gael ei gynyddu i uchafswm o 19** drwy is-ddeddfwriaeth er mwyn diogelu ar gyfer datganoli pwerau pellach yn y dyfodol. Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad y dylai is-ddeddfwriaeth i roi'r newid hwn ar waith fod yn ddarostyngedig i bleidlais gadarnhaol gan y Senedd.

### **Nifer y Dirprwy Lywyddion a Chomisiynwyr y Senedd**

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd **ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd**, yn ogystal â phenodi **y Llywydd a phedwar Aelod arall i wasanaethu yng Nghomisiwn y Senedd**. Ni ddaeth y Pwyllgor i gasgliad ynghylch a ddylai'r rhain newid ond **argymhellodd fod y materion yn cael eu hystyried ymhellach**.

#### **Argymhelliad 5 - tudalen 25**

Rydym yn argymhell y dylid ystyried y cwestiwn ynghylch a ddylai'r Senedd gael hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i ethol mwy o Ddirprwy Lywyddion pe bai am wneud hynny. [...]

#### **Argymhelliad 6 - tudalen 25**

Rydym yn argymhell y dylid ystyried y cwestiwn ynghylch a ddylai'r Senedd gael hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i ethol mwy na phedwar Aelod o Gomisiwn y Senedd pe bai am wneud hynny. [...]

Mae'r Pwyllgor Busnes hefyd wedi **ystyried** y mater hwn ers hynny. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y **byddai'n rhesymol cynyddu uchafswm nifer y Dirprwy Lywyddion i ddau, ond y dylid gwneud darpariaethau i sicrhau y cedwir cydbwysedd gwleidyddol**. Nid oedd y Pwyllgor Busnes yn credu y dylai fod darpariaeth i newid maint neu gyfansoddiad presennol Comisiwn y Senedd.

## Y System Etholiadol

Ystyriodd y Pwyllgor **bedair system etholiadol** fel opsiynau ar gyfer etholiadau'r Senedd yn y dyfodol. Cafodd tair o'r rhain eu hystyried yn flaenorol gan y Panel Arbenigol, a phenderfynodd y Pwyllgor hefyd ystyried system Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Gaeedig gan fod ganddi "nifer o fanteision posibl". Y pedair system a ystyriwyd gan y Pwyllgor yw:

- Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg;
- Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy;
- Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg; a
- Chynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Gaeedig.

### Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg

Y system hon yw'r un a ddefnyddir ar hyn o bryd yn etholiadau'r Senedd ac roedd yn bodloni egwyddorion allweddol y Panel Arbenigol, ond daeth y Pwyllgor i'r casgliad "**pe bai maint y Senedd yn cynyddu, y byddai'n ddymunol newid y system etholiadol bresennol**". Daeth y Pwyllgor i'r casgliadau a ganlyn mewn perthynas â Chynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg:

- Nid yw'n system hyfyw ar gyfer Senedd sy'n cynnwys mwy nag 80 o Aelodau heb naill ai gynyddu nifer yr etholaethau neu gael nifer fwy o Aelodau rhanbarthol nag Aelodau etholaethol, ac nid yw'r Pwyllgor yn credu bod y naill na'r llall yn ddymunol;
- mae gwahaniaeth mewn gwaith achos rhwng Aelodau etholaethol a rhanbarthol, ac mae'r Pwyllgor yn credu bod hyn yn ganlyniad strwythurol i'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg;
- mae gofyniad y system bresennol o bapurau pleidleisio ar wahân ar gyfer pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol yn creu cymhlethdod annymunol; ac
- nid yw'r elfen sylweddol o 'cyntaf i'r felin' o fewn y system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg yn hwyluso cyfranoldeb.

### Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy

Y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy oedd y **system a ffafriwyd gan y Panel Arbenigol a Phwyllgor Diwygio Etholiadol y Senedd**.

**Nid oedd mwyafrif o'r Pwyllgor yn cefnogi'r opsiwn hwn.** Roedd Sian Gwenllian AS o blaid cyflwyno STV fel y system etholiadol newydd ar gyfer y Senedd ond



“er mwyn sicrhau’r uwchfwafrif sydd ei angen i ddiwygio’r Senedd [...] roedd o’r farn y byddai gan system rhestr gyfrannol rinweddau derbyniol hefyd”. Nid oedd Jane Dodds AS yn credu bod “achos cryf wedi’i wneud dros symud i ffwrdd o argymhellion y Panel Arbenigol a’r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd” ac roedd o blaid cyflwyno’r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy fel system etholiadol newydd y Senedd.

Y pryderon a godwyd gan fwafrif o’r Pwyllgor yw:

- Y ffaith bod pleidleisio yn ôl dewis wedi’i restru yn system anghyfarwydd yng Nghymru ac y byddai’r dull o drosi pleidleisiau i seddi yn cael ei ystyried yn gymhleth ac yn anodd ei egluro;
- gallai cymhelliad i apelio at gefnogwyr ymgeiswyr eraill am eu hail ddewis a dewisiadau pellach gael yr effaith anfwriadol o gyfyngu ar drafodaeth gyhoeddus, neu gynnig dewisiadau amgen o ran polisi;
- gallai pleidiau amrywio nifer yr Aelodau y maent yn sefyll mewn etholaethau penodol, er mwyn cynyddu’r tebygolrwydd y bydd pleidleisiau’n cael eu bwrw dros eu Haelodau; a
- gallai pleidleiswyr ffafrio ymgeiswyr o un rhywedd dros un arall, a allai effeithio ar y ffordd y caiff cwotâu rhywedd eu cymhwyso.

### **Rhestrau Cynrychiolaeth Gyfrannol (Hyblyg a Chaeedig)**

System etholiadol Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg oedd **dewis amgen dilys y Panel Arbenigol i’r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy** pe na bai ei argymhellion ar ymyriadau deddfwriaethol i gefnogi ac annog amrywiaeth cynrychiolaeth yn cael eu gweithredu. **Hefyd, ystyriodd y Pwyllgor y posibilrwydd o system Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Gaeedig**, gan nodi mai dyma un o’r systemau etholiadol a wrthodwyd gan y Panel Arbenigol.

Roedd mwyafrif o’r Pwyllgor, a oedd yn cynrychioli “uwchfwafrif deddfwriaethol yn y Senedd gyfan”, **o blaid cyflwyno system rhestr gyfrannol**. Mae’r mwyafrif hwn yn nodi “y byddai’r system hon yn darparu un llwybr i etholiad ar gyfer pob Aelod ac y byddai’n galluogi etholiad cymesur o Aelodau”.

### **Roedd mwyafrif y Pwyllgor o blaid argymhell system gyfrannol rhestr gaeedig.**

Roedd Siân Gwenllian AS o blaid rhestr agored neu hyblyg, ond “er mwyn sicrhau cyfres wedi’i negodi o ganlyniadau ar yr uwchfwafrif sydd ei angen i ddiwygio’r Senedd, roedd o’r farn y byddai system gyfrannol rhestr gaeedig yn dderbyniol”. Roedd hefyd o’r farn y byddai’r system hon yn hwyluso cyflwyno cwotâu rhywedd statudol.

Nid oedd Jane Dodds AS o blaid mabwysiadu rhestrau caeedig, gan ddweud ei bod yn credu y byddent yn “lleihau’r dewis i bleidleiswyr ac yn rhoi gormod o bŵer yn nwylo peiriannau pleidiau”, ac, yn benodol, yn credu y byddai hyn “yn gwanhau llinellau atebolrwydd rhwng Aelod unigol a’i etholaeth”.

Canfu mwyafrif o’r Pwyllgor y byddai system cynrychiolaeth gyfrannol rhestr gaeedig:

- Yn golygu bod y **papurau pleidleisio eisoes yn gyfarwydd i’r pleidleiswyr** (yn debyg i’r rheini a ddefnyddir ar hyn o bryd i ethol Aelodau Rhanbarthol);
- yn hwyluso **pleidiau gwleidyddol cryf a chydlynus**;
- yn **integreiddio’n rhwydd â chyflwyno cwotâu rhywedd deddfwriaethol**, ac yn hwyluso pleidiau’n cyflwyno rhestr fwy amrywiol o ymgeiswyr ar sail ehangach; ac
- er y cydnabyddir na fyddai’r system yn galluogi’r cyhoedd i ethol Aelodau unigol yn uniongyrchol, byddent yn parhau i fod yn atebol i’r etholwyr yn y pen draw oherwydd y bydd eu perfformiad fel Aelodau unigol yn dal i effeithio ar y pleidleisiau sy’n cael eu bwrw dros eu pleidiau.

### Argymhelliad 7 - tudalen 34

Rydym yn argymhell bod y Senedd yn cael ei hethol gan ddefnyddio rhestrau cyfrannol caeedig.

### Dyrannu seddi a throthwyon pleidleisiau

Mae’r Pwyllgor yn nodi pwysigrwydd y fformiwla a ddefnyddir i drosi pleidleisiau yn ddyraniadau seddi mewn system etholiadol rhestr gyfrannol gaeedig. Trafododd y Pwyllgor ddwy fformiwla: **D’Hondt** (a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer Aelodau Rhanbarthol) a **Sainte-Laguë**.

**Roedd mwyafrif o’r Pwyllgor o’r farn y dylid dyrannu seddi i bleidiau gan ddefnyddio fformiwla D’Hondt**, gan mai dyma’r “fformiwla a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer dyrannu seddi rhanbarthol i bleidiau, ac felly mae’n gyfarwydd i ryw raddau”. Roedd Siân Gwenllian AS yn ffafrio defnyddio Sainte-Laguë ond “er mwyn sicrhau’r uwchfwyafrif sydd ei angen i ddiwygio’r Senedd, roedd o’r farn y byddai dyrannu seddi i bleidiau drwy fformiwla D’Hondt yn dderbyniol”.

Roedd Jane Dodds AS yn ffafrio defnyddio Sainte-Laguë, gan y byddai’n cynnig

“mwy o gyfranodeb ac yn adlewyrchu’r pleidleisiau a gaiff eu bwrw ar gyfer pleidiau llai mewn ffordd fwy cywir”. Roedd o’r farn na fyddai’r rhesymeg dros ddefnyddio D’Hondt yn y system bresennol – i ‘gywiro’ anghymesuredd yng nghanlyniadau etholiad etholaethol – yn gymwys i Senedd a etholir gan ddefnyddio rhestr yn unig.

### **Argymhelliad 8 – tudalen 37**

Rydym yn argymhell bod seddi’n cael eu dyrannu i bleidiau gan ddefnyddio fformiwla D’Hondt.

### **Materion eraill**

Hefyd, gwnaeth y Pwyllgor **drafnod materion ychwanegol** a fyddai’n codi o ddefnyddio’r system gyfrannol rhestr gaeedig.

- **Papurau pleidleisio** – ni wnaeth y Pwyllgor unrhyw argymhellion ynghylch dyluniad papurau pleidleisio ond mae’n “rhagweld” y bydd o leiaf rhai o enwau ymgeiswyr yn ymddangos ar bapurau pleidleisio.
- **Seddi gwag** – nid yw’r Pwyllgor yn gweld fawr o rinwedd mewn cynnal is-etholiad os bydd sedd wag yn codi o ystyried y system rhestr gyfrannol a argymhellir.
- **Newidi plaid wleidyddol** – mae’r Pwyllgor yn nodi bod dadleuon o blaid sancsiynau yn erbyn Aelodau sy’n newid plaid (yn wirfoddol neu’n anwirfoddol) ond ni ddaeth i gasgliad ynghylch beth ddylai’r canlyniadau fod.

### **Argymhelliad 9 – tudalen 39**

Rydym yn argymhell bod lleoedd gwag sy’n codi rhwng etholiadau o dan y system rhestr gyfrannol gaeedig yn cael eu llenwi gan yr ymgeisydd nesaf ar restr plaid.

### **Argymhelliad 10 – tudalen 40**

Rydym yn argymhell bod Pwyllgor Busnes y Senedd yn ystyried canlyniadau Aelod yn newid plaid wleidyddol lle mae wedi cael ei ethol drwy system rhestr gyfrannol gaeedig.

O ganlyniad, **trafododd** y Pwyllgor Busnes y mater o ganlyniadau os bydd Aelod yn newid ei blaid wleidyddol. Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad **na ddylai'r deddfwriaeth ddiwygio gynnwys darpariaethau sy'n arwain at ganlyniadau i Aelod o'r Senedd sy'n newid plaid neu grŵp gwleidyddol, neu a ddaw'n annibynnol, rhwng etholiadau'r Senedd**. Fodd bynnag, cytunodd i **roi ystyriaeth bellach i Reolau Sefydlog sy'n ymwneud ag aelodaeth o grŵp wrth adolygu'r Rheolau Sefydlog** cyn y Senedd nesaf.

## Mesurau Amrywiaeth

Canfu'r Pwyllgor dir cyffredin rhwng pleidiau gwleidyddol i archwilio mesurau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol i helpu i **gynyddu amrywiaeth y Senedd**. Drwy waith i ddatblygu'r opsiynau hyn, mae'r Pwyllgor yn nodi y byddai angen ystyried cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i basio deddfwriaeth ar y materion hyn.

Mae'r Pwyllgor yn nodi y **byddai angen i unrhyw Fil sy'n cyflwyno mesurau amrywiaeth gael ei ddrafftio mewn ffordd nad yw'n ymwneud ag unrhyw fater a gedwir yn ôl, gan gynnwys 'cyfle cyfartal'**. Mae'r mater hwn a gedwir yn ôl yn cynnwys eithriadau a chred y Pwyllgor fod lle i gyflwyno mesurau amrywiaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol presennol.

Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r angen i osgoi atgyfeiriad i'r Goruchaf Lys o ystyried yr amserlenni heriol ar gyfer gweithredu deddfwriaeth cyn etholiad Senedd 2026.

### Argymhelliad 17 - tudalen 53

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau priodol i sicrhau nad yw ein hargymhellion ar ddiwygio'r Senedd ar gyfer 2026 yn cael eu rhoi mewn perygl gormodol o atgyfeiriad i'r Goruchaf Lys.

## Cwotâu Rhywedd

**Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth gan academyddion a sefydliadau cymdeithas sifil** i ategu canfyddiadau'r Panel Arbenigol a'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd ynghylch cyflwyno cwotâu rhywedd ar gyfer etholiadau'r Senedd.

Daw'r Pwyllgor i'r casgliad **y dylid datblygu datblygu cwotâu rhywedd integredig<sup>1</sup> a rhestru 'am-yn-ail' gorfodol<sup>2</sup>** fel rhan o'r system etholiadol rhestr newydd, gyda Swyddogion Canlyniadau yn gwrthod rhestrau ymgeiswyr fel sanctiwn am beidio â chydymffurfio.

Mae'r Pwyllgor yn nodi **cyngor ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i gyflwyno cwotâu rhywedd**. O ystyried bod y mater yn un cymhleth, mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gallai ei argymhellion godi amrywiaeth o faterion cymhwysedd, yn dibynnu ar fanylion y polisi a ddatblygir, gan gynnwys ystyried diben y Bil fel elfen allweddol o gymhwysedd.

#### **Argymhelliad 11 - tudalen 44**

Rydym yn argymhell y dylid ethol y Senedd gyda chwotâu rhywedd statudol integredig.

#### **Data Amrywiaeth Ymgeiswyr**

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod **adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010** yn cynnig **darpariaeth ddeddfwriaethol gyfredol ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth amrywiaeth am ymgeiswyr etholiadol**, ond bod y pŵer i gychwyn yr adran hon yn nwylo Llywodraeth y DU.

Gan nad yw'r ddarpariaeth hon mewn grym o hyd, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai fod **darpariaeth ddeddfwriaethol i gasglu a chyhoeddi data amrywiaeth dienw am ymgeiswyr**.

Cynghorwyd y Pwyllgor y gallai gosod dyletswyddau ar awdurdod datganoledig yng Nghymru, megis Swyddogion Canlyniadau ar gyfer etholiadau'r Senedd, i gasglu a chyhoeddi'r wybodaeth hon mewn ffordd nad yw'n addasu Deddf Cydraddoldeb 2010, **gyda gwaith drafftio gofalus, fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd**.

- 
1. Ymyriad deddfwriaethol i gymhwyso meini prawf ychwanegol ar lefel ymgeisydd neu Aelod etholedig er mwyn annog neu sicrhau cynrychiolaeth gytbwys o fenywod a dynion. **Ffynhonnell: Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**
  2. Yr arfer o fewn systemau Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr o drefnu ymgeiswyr ar restr am-yn-ail yn ôl eu rhywedd. **Ffynhonnell: Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**

**Argymhelliad 12 - tudalen 45**

Rydym yn argymhell gosod gofyniad deddfwriaethol ar Awdurdod Ddatganoledig yng Nghymru i gasglu a chyhoeddi data dienw ar amrywiaeth ymgeiswyr.

**Rhannu Swydd**

Mae adroddiad y Pwyllgor yn nodi'r **manteision a allai ddod yn sgil rhannu swydd**, er enghraifft galluogi mwy o amrywiaeth o ymgeiswyr i sefyll etholiad, ond mae'n amlygu nifer o faterion y byddai angen eu datrys cyn y gellid rhoi system effeithiol o rannu swydd ar waith:

- Datblygu mecanwaith ar gyfer datrys anghydfod rhwng partneriaid;
- beth fyddai'n digwydd pe bai un partner yn gadael ei swydd yn annisgwyl;
- sancsiynau am gamymddwyn gan un o'r partneriaid; a
- thrin gwybodaeth a data.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod y Llywydd wedi datgan yn flaenorol ei bod wedi cael cyngor cyfreithiol yn datgan **efallai nad oes gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i ddeddfu er mwyn i Weinidogion rannu swydd**. Gallai hyn greu system dwy haen lle mae'n bosibl na fydd Aelodau sy'n rhannu swydd yn gymwys i ddod yn Weinidogion.

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad **nad oes ganddo ddigon o amser i ystyried y mater hwn yn fanwl** ac felly dylid ystyried ymhellach a oes modd gwneud newidiadau yn y dyfodol i ddeddfwriaeth (ar gyfer etholiad ar sail rhannu swydd) neu Reolau Sefydlog (i alluogi rhannu swydd ar gyfer rolau penodol – megis Cadeirydd Pwyllgor).

**Argymhelliad 13 - tudalen 48**

Rydym yn argymhell y dylid rhoi ystyriaeth bellach, ar sail drawsbleidiol, i archwilio dichonoldeb a heriau deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â galluogi etholiad ar sail rhannu swydd.

**Argymhelliad 14 - tudalen 48**

Rydym yn argymhell bod Pwyllgor Busnes y Senedd yn ystyried y materion

ymarferol a gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â'r ddau Aelod yn rhannu swydd benodol (megis Cadeirydd Pwyllgor).

### **Mesurau ehangach i gynyddu amrywiaeth**

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod **cyfyngiadau amser ein gwaith wedi cyfyngu ar ein cyfle i ystyried goblygiadau cwotâu deddfwriaethol ar gyfer nodweddion gwarchoddedig ar wahân i rywedd.**

Felly nid yw'n argymhell cyflwyno cwotâu ar gyfer nodweddion gwarchoddedig eraill ar hyn o bryd, ond yn hytrach mae'n galw am wneud rhagor o waith i edrych ar ddulliau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol o sicrhau mwy o amrywiaeth yn y Senedd ar draws ystod ehangach o nodweddion gwarchoddedig.

#### **Argymhelliad 15 - tudalen 51**

Rydym yn argymhell bod pwyllgor perthnasol yn ystyried sut y gellir gwneud rhagor o waith i ystyried rhinweddau a goblygiadau cwotâu amrywiaeth deddfwriaethol ar gyfer nodweddion ar wahân i rywedd. Rydym yn rhagweld y bydd yr ystyriaeth hon yn llywio penderfyniadau ynghylch a fydd cwotâu o'r fath, mewn amser, yn fecanwaith effeithiol ar gyfer annog ethol Senedd fwy amrywiol, ar amser priodol yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor o'r farn **bod modd cymryd camau eraill i annog amrywiaeth yn ehangach** yn y Senedd, megis pob plaid wleidyddol sy'n sefyll yn yr etholiad yn cyhoeddi strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant.

#### **Argymhelliad 16 - tudalen 51**

Rydym yn argymhell bod deddfwriaeth diwygio'r Senedd yn cynnwys darpariaethau sy'n annog pob plaid wleidyddol sydd ag ymgeiswyr yn sefyll mewn etholiad Senedd i gyhoeddi strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant, gan nodi sut y mae wedi ceisio hwyluso amrywiaeth o fewn ei hymgeiswyr, o leiaf chwe mis cyn etholiad y Senedd sydd wedi'i drefnu.

### **Ffiniau etholaethol ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026**

---

Mae'r ffaith nad oes corff adolygu ffiniau ar hyn o bryd sydd â chyfrifoldeb statudol dros ffiniau'r Senedd yn golygu **na fyddai digon o amser i gynnal adolygiad**

---

**llawn o'r ffiniau cyn etholiad y Senedd yn 2026.** Daw'r Pwyllgor i'r casgliad felly y bydd angen i'r ffiniau ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026 fod **yn seiliedig ar set bresennol o 'flociau adeiladu etholiadol'**.

Mae adroddiad y Pwyllgor yn asesu'r ddwy set o flociau adeiladu ar gyfer etholaethau'r Senedd a ystyriwyd gan y Panel Arbenigol (y **40 o etholaethau presennol y Senedd**; a'r **22 o ardaloedd awdurdodau lleol Cymru**), yn ogystal â'r **32 o etholaethau arfaethedig San Steffan** ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol nesaf.

Mae mwyafrif o'r Pwyllgor, sy'n cynrychioli uwchfwyafrif deddfwriaethol yn y Senedd, yn cytuno y **dylai'r ffiniau ar gyfer etholiad 2026 fod yn seiliedig ar y 32 o etholaethau terfynol Senedd y DU a gynigir gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru**, gyda'r etholaethau hyn yn **cael eu paru i greu 16 o etholaethau newydd**.

Mae'r mwyafrif hwn yn credu bod gwerth mewn defnyddio'r blociau adeiladu hyn gan eu bod **wedi cael eu hadolygu yn ddiweddar** ac felly **dim ond "proses gyflym" fyddai angen i'w paru**. Mae'r mwyafrif hefyd yn ystyried bod ganddynt werth gan eu bod **yn cynnwys nifer gweddol gyfartal o etholwyr, gyda phob un yn ethol yr un nifer o Aelodau**.

Fodd bynnag, **nid yw'r mwyafrif eisiau i'r cydffinio hwn ag etholaethau Senedd y DU fod yn barhaol**, sy'n golygu y gallai gwyro oddi wrth yr etholaethau hyn ddigwydd mewn adolygiadau llawn o ffiniau yn y dyfodol.

Roedd Jane Dodds AS yn ffafrio defnyddio'r 22 ardal awdurdod lleol i greu 17 o etholaethau aml-Aelod, a fyddai'n darparu ffiniau sydd "yn gyfarwydd ac yn ystyrlon i bleidleiswyr".

### **Argymhelliad 18 - tudalen 63**

Rydym yn argymhell bod etholiad 2026 yn defnyddio'r 32 o etholaethau terfynol Senedd y DU a gynigiwyd gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar ôl iddo gwblhau ei Adolygiad Seneddol ar gyfer 2023. Bydd yr etholaethau hyn yn cael eu paru i greu 16 o etholaethau aml-Aelod newydd.

### **Argymhelliad 19 - tudalen 64**

Rydym yn argymhell, er bod etholaethau'r Senedd yn alinio, i ddechrau, ag etholaethau Senedd y DU at ddiben etholiad 2026, na ddylent fod yn gydffiniol yn awtomatig.



Mae'r Pwyllgor yn cynnig, gan nad oes digon o amser i gynnal adolygiad llawn o'r ffiniau cyn etholiad 2026, **y dylid cynnal "proses symlach ar gyfer adolygu ffiniau" at ddiben diffinio'r 16 o etholaethau aml-aelod arfaethedig ar gyfer etholiad 2026**. Byddai'r adolygiad hwn yn paru'r 32 o etholaethau San Steffan i greu 16 o etholaethau aml-aelod ar gyfer etholiad y Senedd.

Mae adroddiad y Pwyllgor yn nodi amserlen enghreifftiol ar gyfer sut **gellid cwblhau'r adolygiad hwn o fewn 12 mis** i roi digon o amser ar gyfer gweithredu ei argymhellion i weinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol baratoi ar gyfer etholiad 2026.

### Argymhelliad 31 - tudalen 81

Rydym yn argymhell bod deddfwriaeth diwygio'r Senedd yn cynnwys darpariaethau i alluogi proses symlach ar gyfer adolygu ffiniau, at ddiben diffinio'r 16 o etholaethau aml-Aelod arfaethedig. Dylid cwblhau hyn mewn digon o amser i allu gweithredu'r argymhellion, ac er mwyn i weinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol wneud paratodau angenrheidiol cyn etholiad 2026.

## Adolygiadau ffiniau ar ôl etholiad 2026

---

O ystyried casgliad y Pwyllgor bod angen trefniadau interim ar gyfer etholiad Senedd 2026, bu hefyd yn ystyried yr angen am **fframwaith hirdymor i bennu ffiniau etholaethau'r Senedd yn y dyfodol**. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddarpariaethau deddfwriaethol ar waith i adolygu ffiniau etholiadol y Senedd a **byddai angen i'r Senedd basio deddfwriaeth sylfaenol** i roi pwerau a dyletswyddau i sefydliad newydd, neu sefydliad sy'n bodoli eisoes, i gynnal adolygiadau ffiniau.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried canfyddiadau'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd a chymerodd dystiolaeth bellach gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol. Daeth i'r casgliad y **byddai'n briodol i bwerau gael eu rhoi i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i gynnal adolygiadau o ffiniau etholiadol y Senedd**.

### Argymhelliad 20 - tudalen 67

Rydym yn argymhell y dylid rhoi'r pŵer i adolygu ffiniau'r Senedd, gan gynnwys y pŵer i ddiffinio etholaethau aml-Aelod ar gyfer etholiad 2026, i Gomisiwn

Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

### **Argymhelliad 21 - tudalen 67**

Rydym yn argymhell y dylai deddfwriaeth Diwygio'r Senedd gymryd camau i ailgyfansoddi ac ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i adlewyrchu ei swyddogaethau newydd. Dylai hyn gynnwys unrhyw addasiadau priodol i'w gyfluniad, ei llywodraethiant, ei drefniadau staffio a'i adnoddau ariannol.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried pa mor aml y dylid cynnal yr adolygiadau hyn. Ochr yn ochr ag argymhellion y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, mae'r Pwyllgor yn nodi'r sefyllfa ar gyfer etholaethau Senedd y DU a'r trefniadau ar gyfer etholaethau Senedd yr Alban.

Daw'r Pwyllgor i'r casgliad y **dylai deddfwriaeth gynnwys gofyniad i adolygiadau ffiniau llawn gael eu cynnal yn rheolaidd** ac y **dylid cychwyn yr un cyntaf yn ystod tymor y Senedd hon i ddod i rym o etholiad nesaf y Senedd ar ôl 2026**. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y **dylai hyn hefyd gynnwys amserlenni ar gyfer y prosesau sydd ynghlwm wrth adolygiad llawn**.

### **Argymhelliad 22 - tudalen 69**

Rydym yn argymhell y dylid cynnal adolygiad llawn o'r ffiniau yn nhymor y Senedd hon, gyda'r argymhellion i ddod i rym o etholiad Senedd 2031 ymlaen.

### **Argymhelliad 23 - tudalen 70**

Rydym yn argymhell bod deddfwriaeth diwygio'r Senedd yn cynnwys gofyniad i gynnal adolygiadau llawn o'r ffiniau yn gyfnodol, gyda darpariaethau priodol cyfyngedig ar gyfer adolygiadau interim os bydd angen.

### **Argymhelliad 24 - tudalen 70**

Rydym yn argymhell bod deddfwriaeth diwygio'r Senedd yn cynnwys amserlenni ar gyfer y prosesau sy'n gysylltiedig ag adolygiad llawn o'r ffiniau'r Senedd.

## Paramedrau adolygu

Edrychodd y Pwyllgor ar y paramedrau y dylid eu pennu ar gyfer adolygiadau ffiniau yn y dyfodol, gan gynnwys a yw nifer yr etholaethau a'r Aelodau sydd i'w hethol wedi'u pennu mewn deddfwriaeth sylfaenol; a ddylai etholaethau fod yn cyd-ffinio â ffiniau awdurdodau lleol neu San Steffan; ac unrhyw mrywiad yn nifer yr etholwyr fesul etholaeth.

Mae adroddiad y Pwyllgor yn dod i'r casgliadau a ganlyn:

- **Dylid nodi mai 16 yw nifer etholaethau'r Senedd;**
- dylai pob etholaeth etholi **yr un nifer o Aelodau** o'r Senedd;
- **dylid defnyddio wardiau awdurdodau lleol fel y blociau adeiladu sylfaenol ar gyfer dylunio etholaethau ac ni ddylid eu rhannu rhwng etholaethau;**
- ni ddylai **cysylltiad awtomatig ag etholaethau San Steffan (argymhelliad 19)**; a
- dylid pennu paramedrau fod etholaethau yn **cynnwys nifer gweddol gyfartal o etholwyr** ond **mae ffactorau eraill megis cysylltiadau lleol a daearyddiaeth hefyd yn berthnasol.**

### Argymhelliad 25 - tudalen 73

Rydym yn argymhell bod nifer etholaethau'r Senedd yn cael ei nodi fel 16 mewn deddfwriaeth sylfaenol.

### Argymhelliad 26 - tudalen 75

Rydym yn argymhell y dylai deddfwriaeth sylfaenol nodi y dylai pob etholaeth ethol yr un nifer o Aelodau o'r Senedd.

### Argymhelliad 27 - tudalen 76

Rydym yn argymhell y dylai deddfwriaeth diwygio'r Senedd ddarparu bod wardiau awdurdodau lleol yn cael eu defnyddio fel y blociau adeiladu sylfaenol ar gyfer dylunio etholaethau ac na ddylai comisiwn ffiniau fel arfer rannu wardiau etholiadol rhwng etholaethau.

### Argymhelliad 28 - tudalen 78

Rydym yn argymhell y dylai deddfwriaeth sylfaenol nodi fel paramedrau ar gyfer adolygiadau o'r ffiniau bod etholaethau'r Senedd yn cynnwys tua'r

un nifer o etholwyr, amrywiad derbyniol yn yr etholwyr fesul etholaeth a pharamedrau perthnasol eraill.

## Gweithredu Adolygiadau

Dywedodd swyddogion o ysgrifenyddiaeth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wrth y Pwyllgor am bwysigrwydd deddfwriaeth o ran pennu **a fyddai comisiwn ffiniau sy'n gyfrifol am ffiniau'r Senedd yn gwneud argymhellion** (i'w cymeradwyo gan y Senedd, neu'n gallu cael eu newid gan Weinidogion Cymru) **neu a fyddai'n gorff gwneud penderfyniadau** (gyda phwerau cyfyngedig yn unig i Weinidogion Cymru newid ffiniau os bodd y comisiwn ffiniau yn gofyn iddynt wneud hynny).

Mae'r Pwyllgor yn cytuno â Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru y **dylai cynigion y comisiwn gael eu gweithredu heb fod angen cymeradwyaeth y Senedd** ac mae'n argymhell y **dylai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth "o fewn amserlen realistig ond cyflym" i roi effaith i argymhellion y comisiwn ffiniau.**

### Argymhelliad 29 - tudalen 79

Rydym yn argymhell y dylai argymhellion y comisiwn ffiniau gael eu rhoi ar waith heb ofyniad am gymeradwyaeth y Senedd a heb unrhyw bŵer gan weinidogion y llywodraeth i ddiwygio argymhellion o'r fath, ac eithrio pe bai'r comisiwn ffiniau yn gofyn am gael cywiro gwallau.

### Argymhelliad 30 - tudalen 79

Rydym yn argymhell bod Bil Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud, o fewn amserlen realistig ond cyflym, is-ddeddfwriaeth i roi effaith i argymhellion y comisiwn ffiniau.